No.

# PWYLLGOR TRWYDDEDU DIOGELWCH CYHOEDDUS

Cofnodion cyfarfod o bell a gynhaliwyd ar 6 Chwefror, 2024.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd P. Drake (Cadeirydd); Cynghorydd J.M. Norman (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr G. Bruce, L. Burnett, V.P. Driscoll, C.P. Franks, E. Goodjohn, H.C. Hamilton, W.A. Hennessy, N.B. Marshallsea a R. Sivagnanam.

## 773 CYHOEDDIAD -

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngrwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

## 774 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain gan Gynghorwyr S.T. Wiliam a M.R. Wilkinson.

## 775 COFNODION –

PENDERFYNWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Tachwedd, 2023 fel cofnod cywir.

## 776 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

## 777 CAIS I GANIATÁU DEFNYDDIO BRANDIO CORFFORAETHOL AR GERBYDAU SY'N BERCHEN I VEEZU (CAT) –

Wrth gyflwyno'r adroddiad dywedodd y Swyddog Trwyddedu fod cais yn cael ei wneud i'r Pwyllgor ystyried caniatáu defnyddio brandio corfforaethol ar gerbydau sy'n eiddo i Grŵp Veezu. Roedd yr adroddiad yn amlinellu bod swyddogion wedi dirprwyo awdurdod i roi caniatâd ond gan y gofynnwyd am lifrai llawn ar holl gerbydau Veezu, roedd y mater yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor i'w benderfynu. Ers cyhoeddi'r agenda a chyn y cyfarfod roedd fideo a lluniau o'r brandio Corfforaethol i'w defnyddio wedi'u rhannu gyda'r Aelodau ac er budd y rhai oedd yn gwylio'r cyfarfod ar-lein rhannwyd y fideo a'r lluniau yn ystod y cyfarfod hefyd.

Yn ystod y drafodaeth ar y mater, gwnaeth yr Aelodau sylwadau ar y defnydd o hysbysebu a chyhoeddusrwydd fel arf marchnata ac a fyddai hyn yn cael effaith ar bolisïau'r Cyngor. Dywedodd y swyddog cyfreithiol a oedd yn bresennol y byddai angen ystyried pob cais yn ôl ei deilyngdod a'r prif gwestiwn i'w ystyried oedd a yw'n achosi dryswch i'r cyhoedd ac wrth gydnabod bod y brandio yn glir, ystyriwyd y byddai hyn yn debygol o achosi llai o ddryswch i'r cyhoedd. cyhoeddus.

Felly y bu wedyn

PENDERFYNWYD – Ar ôl ystyried y casgliadau mewn cysylltiad â'r Cais, ac ystyried y ddadl gan bob parti yn y cyfarfod, y dylid cymeradwyo'r Cais i ganiatáu defnyddio brandio corfforaethol ar gerbydau sy'n eiddo i Veezu. Cytunodd y Pwyllgor fod yr Ymgeisydd wedi bodloni’r profion statudol o dan adran 48 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976, am y rhesymau a nodir yn yr adroddiad a’i atodiadau.

Rheswm dros y penderfyniad

Er mwyn i’r Cyngor gyflawni ei ddyletswydd i benderfynu ar y Cais, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976.